| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **27 Hydref 2016** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd David Smith / Graham Boase** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Mike Jones** |
| **Teitl:** | **Y broses, y fethodoleg a'r meini prawf ar gyfer ymgymryd ag Archwiliadau Diogelwch Ffyrdd mewn perthynas â cheisiadau cynllunio** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Egluro'r broses, y fethodoleg a'r meini prawf ar gyfer ymgymryd ag Archwiliadau Diogelwch Ffyrdd sy'n ymwneud â cheisiadau cynllunio.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Edrych ar y broses, y fethodoleg a'r meini prawf a ddefnyddir ar gyfer Archwilio Diogelwch Ffyrdd ac a ydynt yn cael eu rhoi ar waith yn briodol ac yn gyson mewn perthynas â cheisiadau cynllunio a dderbynnir yn Sir Ddinbych.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn rhoi sylwadau ar gynnwys yr adroddiad.

## 4. Manylion am yr adroddiad

<u>Cefndir</u>

4.1 Bydd gan fathau ceisiadau cynllunio penodol sy'n cael eu cyflwyno i'r Cyngor er mwyn penderfynu arnynt effeithiau posibl ar rwydwaith y priffyrdd. Bydd ar swyddogion cynllunio angen gwybodaeth arbenigol gan swyddogion priffyrdd o Adain Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd wrth benderfynu ar geisiadau o'r fath. Bydd yr sylwadau gan swyddogion priffyrdd yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar gais cynllunio a bydd swyddogion priffyrdd perthnasol yn dod i Bwyllgorau Cynllunio, pan fo angen.

4.2 Wrth asesu goblygiadau cynnig cais cynllunio ar y briffordd, bydd swyddogion priffyrdd yn defnyddio ystod o ddulliau, gan ddibynnu ar faint a natur yr hyn sy'n cael ei geisio. Un dull felly yw "Archwiliad Diogelwch Ffyrdd" (ADFf).

<u>Beth yw Archwiliad Diogelwch Ffyrdd?</u>

4.3 Mae ADFf yn archwiliad arbenigol sydd wedi'i gynllunio er mwyn asesu diogelwch cynigion i addasu'r briffordd, ac nid er mwyn asesu effaith y cynnig datblygu ar ddiogelwch priffyrdd. Mae manylion ynglŷn ag ADFfau wedi'u cynnwys yn y ddogfen

"Cynllunio Priffyrdd 19/15" sy'n ffurfio rhan o "*Lawlyfr Cynllunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd*" y Llywodraeth Ganolog. Mae Copi o CP19/15 wedi'i ddarparu yn Atodiad A yr adroddiad hwn. Mae'r llawlyfr yn ddogfen dechnegol ac mae'n gwneud ADFfau yn ofynnol ar gyfer gwelliannau i briffyrdd sydd ar rwydwaith y Cefnffyrdd a'r Traffyrdd. Er nad yw'n ofynnol ar weddill rhwydwaith y ffyrdd, mae'r Cyngor, fel y rhan fwyaf o awdurdodau priffyrdd eraill, yn defnyddio ADFfau i asesu diogelwch gwaith gwella ar briffordd.

4.4 Diben ADFf yw darparu "gwiriad diogelwch" annibynnol o waith gwella sy'n cael ei gynnig ar briffyrdd wrth gynllunio ac ar ôl y gwaith adeiladu. Wrth wneud yr archwiliad yn ystod y cam cynllunio, gall ddwyn unrhyw broblemau diogelwch posibl i'r golwg yn gynnar yn y broses. Maent yn cael eu defnyddio'n rheolaidd ar gyfer y rhan fwyaf o gynlluniau gwella priffyrdd h.y. nid y rhai sy'n ymwneud a cheisiadau cynllunio'n unig. Yng nghyd-destun ceisiadau cynllunio, bydd yr ADFf yn cynorthwyo'r swyddog priffyrdd wrth ymateb i "gynllunio" ar effaith y datblygiad ar y briffordd (h.y. os yw gwaith gwella'r briffordd yn cael ei gynnig fel rhan o'r datblygiad, yna bydd y gwaith hwn ar y briffordd yn un o ystyriaethau'r briffordd).

4.5 Nid yr ADFf yw'r unig wiriad o ddiogelwch priffyrdd mewn perthynas â chais cynllunio. Wrth asesu ceisiadau cynllunio, bydd swyddogion priffyrdd yn defnyddio'u profiad a'u barn eu hunain i ystyried goblygiadau diogelwch datblygiad arfaethedig ac unrhyw addasiadau cysylltiedig i rwydwaith y priffyrdd. Yn yr un modd, bydd angen Datganiad Trafnidiaeth neu Asesiad Trafnidiaeth ar bob un datblygiad ond y rhai lleiaf, a fydd fel arfer yn cynnwys dadansoddiad o hanes damweiniau ar y rhwydwaith priffyrdd lleol er mwyn rhoi gwybodaeth i'r swyddog priffyrdd wrth ymateb.

4.6 Mae tri cham i ADFf fel arfer:

i) ADFf Cam 1; wrth gwblhau cynlluniau rhagarweiniol y cynnig
ii) ADFf Cam 2; wrth gwblhau cynlluniau manwl y cynnig
iii) ADFf Cam 3; wrth gwblhau addasiadau go iawn ar y briffordd

4.7 Nid yw ADFf yn gysylltiedig â gwaith Tîm "Archwilio" y Cyngor na Swyddfa "Archwilio" Cymru, nac ychwaith â Thîm Iechyd a Diogelwch y Cyngor nac Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mater cynllunio "priffyrdd" technegol ydyw.

4.8 Yng nghyd-destun ceisiadau cynllunio, nid yw ADFfau ond yn asesu diogelwch addasiadau arfaethedig i'r briffordd h.y. nid asesu a yw egwyddor cyffredinol datblygiad arfaethedig yn dderbyniol o ran y briffordd yw eu pwrpas.

<u>Pryd y gwneir Archwiliadau Diogelwch Ffyrdd mewn perthynas â Cheisiadau Cynllunio?</u>

4.9 Bydd rhai ceisiadau cynllunio penodol yn gofyn am addasu'r briffordd (e.e. mynediad newydd i gerbydau i mewn i safle'r datblygiad neu oleuadau traffig newydd ar groesffordd gerllaw). Bydd gwaith o'r fath ar y briffordd, wrth gwrs, angen caniatâd gan y Cyngor fel "Awdurdod Priffyrdd", sy'n broses wahanol i'r broses gynllunio.

4.10 Gan ddibynnu ar y gwaith a gynhigiwyd ar y briffordd fel rhan o unrhyw gais cynllunio, efallai y bydd ar y Cyngor angen i'r ymgeisydd gynnal ADFf. Mae'r meini prawf ar

gyfer cynnal ADFf ar gyfer gwaith ar y briffordd sy’n ymwneud â datblygiad wedi’i nodi yn Atodiad B.

4.11 Nid oes angen cynnal ADFf ar gyfer cais cynllunio nad yw'n cynnig unrhyw waith gwirioneddol ar y briffordd, gan mai i waith addasu gwirioneddol ar y briffordd yn unig y mae ADFf yn berthnasol.

4.12 Pan fydd Swyddogion Priffyrdd yn ystyried bod angen ADFf i gefnogi cais cynllunio, bydd gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno'r ADFf fel rhan o'r wybodaeth gefndirol a gyflwynir gyda'r cais cynllunio.

4.13 Gan ddibynnu ar lefel y manylder a ddangosir yn y cais cynllunio o ran y cynnig i wneud gwaith ar y briffordd, efallai y bydd angen ADFf Cam 2 hefyd. Os mai ar y “cam cynllunio rhagarweiniol” y mae’r gwaith a fwriedir ar y briffordd, yna bydd angen ADFf Cam 1 a bydd angen ADFf Cam 2 yn nes ymlaen yn y broses (gan gymryd y rhoddir caniatâd cynllunio a bod angen y gwaith ar y briffordd) e.e. nid yw pob cais cynllunio'n dangos “cynllun manwl” o’r gwaith arfaethedig ar y briffordd gan y gallent gael eu cyflwyno beth amser ar ôl rhoi caniatâd cynllunio. Mae hon yn broses resymegol gan mai “materion technegol" ar gyfer y swyddogion priffyrdd yw "cynllun manwl” terfynol y gwaith ar y briffordd, a bydd arnyn nhw angen cymeradwyaeth ffurfiol y Cyngor fel “Awdurdod Priffyrdd” ar gyfer unrhyw achos cyn y gellir dechrau’r gwaith ar y briffordd, hyd yn oed os rhoddwyd caniatâd cynllunio eisoes.

4.14 Mae ADFf Cam 3 yn fater rhwng y datblygwr/ymgeisydd a’r Cyngor fel "Awdurdod Priffyrdd" ac ni fyddai fel arfer yn rhan o'r broses gynllunio.

4.15 Os cyflwynir cais cynllunio sy’n cynnwys gwaith arfaethedig ar Gefnffordd, yna bydd angen i'r ymgeisydd gyflwyno ADFf a bydd "cynllunio" yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar oblygiadau'r cynnig, gan gynnwys yr ADFf.

<u>Pwy sy’n cynnal Archwiliadau Diogelwch Ffyrdd?</u>

4.16 Bydd yr ADFf yn cael ei gynnal ar gost yr ymgeisydd. Mae’n rhaid i ADFf gael ei wneud gan o leiaf ddau Archwiliwr Diogelwch Ffyrdd cymwys, a fydd yn arbenigwyr sydd wedi’u hyfforddi i ymchwilio i wrthdrawiadau. Mae’n rhaid i'r Archwilwyr fod yn gwbl annibynnol ar gynllun y gwaith ar y priffyrdd sy'n cael ei gynnig.

4.17 Mae'n arferol i’r ymgeisydd gomisiynu’r archwilwyr cymwys i gynnal yr ADFf gan fod yr Archwilwyr wedi cymhwyso’n broffesiynol ac yn annibynnol ar y broses gynllunio.

<u>Sut y cynhelir Archwiliadau Diogelwch Priffyrdd</u>

4.18 Mae proses a methodoleg cynnal ADFf wedi’i nodi yn y ddogfen "Llawlyfr Cynllunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd” CP19/15 (canllaw’r Llywodraeth).

4.19 Dylai’r ADFf fod o safon digon uchel i alluogi'r swyddog priffyrdd i ddeall yr effaith y bydd y gwaith arfaethedig ar y briffordd yn ei gael ar ddiogelwch pawb sy’n defnyddio’r ffordd. Os na fydd yn ddigon da, bydd y swyddog priffyrdd yn gofyn am fwy o waith ar yr ADFf cyn gyrru ei sylwadau at y pwyllgor cynllunio.

4.20 Yr ymgeisydd/datblygwr a fydd yn rhoi’r briff i’r aseswyr, ond mae’n amlwg y bydd angen iddo gyfeirio at ddiogelwch y gwaith sy’n cael ei gynnig ar y briffordd, gan ystyried Cynllunio Priffyrdd 19/15 ac mae’n rhaid iddo fodloni gofynion y swyddog priffyrdd.

Casgliad

4.21 Yn y bôn, mater diogelwch priffyrdd sy’n ymwneud â gwneud gwaith gwirioneddol ar y briffordd yw ADFf. Mae angen ADFf yn aml fel rhan o'r broses gynllunio, ond nid yw'n asesu effaith diogelwch cyffredinol y datblygiad ei hun ar y briffordd. Yn hytrach, mae'n rhoi sylwadau ar unrhyw waith arfaethedig ar y briffordd sy'n gysylltiedig â'r datblygiad.

4.22 Os rhoddir caniatâd cynllunio o dan amgylchiadau o’r fath, bydd angen cymeradwyaeth y Cyngor fel “Awdurdod Priffyrdd" ar y gwaith ar y briffordd eto. Mae’r ADFf felly’n helpu i roi gwybodaeth yn y cais cynllunio, ond ei brif bwrpas yw cefnogi'r caniatâd angenrheidiol gan y Cyngor fel yr "Awdurdod ar Briffyrdd".

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Gwella ein ffyrdd – Mae ADFfau’n cyfrannu at wella diogelwch rhwydwaith y priffyrdd.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Mae ADFfau sy’n gysylltiedig â datblygiadau’n cael eu hariannu gan y datblygwr. Yn yr un modd, bydd unrhyw newidiadau i’r dyluniad neu i'r cynllun terfynol o ganlyniad i'r datblygiad yn cael eu hariannu gan y datblygwr.

**7. Beth yw prif gasgliadau yr Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad yr Asesiad o Effaith ar Les o’r wefan a dylid ei ychwanegu fel atodiad i'r adroddiad.**

2 Seren. Sgôr wirioneddol: 14 allan o 26. Cyfeiriwch at Atodiad C.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Cyflwynwyd papur i GCIGA ym mis Gorffennaf 2016 a arweiniodd at ofyn am yr adroddiad hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol o’r adroddiad hwn i’r Cyngor gan fod pob cost sy’n gysylltiedig â chynnal yr ADFf ac unrhyw gostau sy’n ymwneud â newidiadau i’r dyluniad neu i’r cynllun terfynol o ganlyniad i'r ADFfau yn cael eu hariannu gan y datblygwr.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Y risg amlycaf fyddai gwrthdrawiad traffig ffordd difrifol neu angheuol mewn lleoliad a addaswyd yn ddiweddar fel rhan o ddatblygiad. Un o'r cwestiynau cyntaf y byddai'r Heddlu, neu Gwêst, yn ei ofyn fyddai a gynhaliwyd ADFf ai peidio. Er nad yw'n orfodol ar ffyrdd nad ydynt yn Gefnffyrdd, maent bellach yn cael eu cynnal ar lawer o ffyrdd fel arfer da ar draws y diwydiant priffyrdd. Felly, os penderfynir peidio â chynnal ADFf, mae'n bwysig bod hwn yn benderfyniad gwrthrychol ar sail bodloni meini prawf cedyrn a chlir, yn hytrach na phenderfyniad goddrychol yn niffyg proses glir.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae pwerau'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r mater hwn wedi'u hamlinellu yn Adran 7 yng Nghyfansoddiad y Cyngor.